**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)** |
| **SUBJECT:** | **PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL) - DYDD LLUN, 14 MEHEFIN 2021 DYDD LLUN, 14 MEHEFIN 2021** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. L. Davies
M. Day
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Thomas
G. Thomas
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Helen Jones (Swyddog) |
| Steve Berry (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Swyddog) |
| Hayley Hawkins (Staff y Cyngor) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Gwasanaethau Democrataidd (Hysbysu) |
| Ceri Edwards Brown (Ysgrifennydd) |
| Pob Cynghorydd (Hysbysu) |
| Dave Thompson (Swyddog) |
| Sarah Burchell (Swyddog) |
| Steve Osborne (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Cynghorydd J. Hill<br>Cynghorydd C. Meredith | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>POLISI TACSIS – SAFONAU STATUDOL YR ADRAN TRAFNIDIAETH AR GYFER TACSIS A CHERBYDAU HUR PREIFAT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Trwyddedu.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm – Safonau Masnachu a Thrwyddedu fod yr adroddiad yn rhoi manylion dogfennau ‘Safonau Statudol Tacsis a Cherbydau Hur Preifat’ a ‘Chanllawiau Cydgordio Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hur Preifat yng Nghymru’ Llywodraeth Cymru. Mae copi o’r dogfennau a nodwyd ar gael yn yr atodiadau. Dywedodd y Rheolwr Tîm hefyd fod yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth am newid i bolisi’r Awdurdod yn ymwneud a thrwyddedau cerbydau hacni a hur preifat i alluogi gwiriadau 6 misol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br><br>Siaradodd Arweinydd y Tîm ymhellach am yr adroddiad ac amlinellodd y pwyntiau allweddol. Rhoddodd Arweinydd y Tîm sicrwydd i’r Pwyllgor fod yr Awdurdod eisoes yn gweithredu’r rhan fwyaf o’r argymhellion ac y sefydlwyd gweithgor ledled Cymru i hybu eu gweithredu mewn modd cyson ar draws Cymru. Yn nhermau costau i ddeiliaid trwydded, dywedwyd fod y Cyngor ar | |

hyn o bryd yn disgwyl i yrwyr trwyddedig gael adroddiad DBS Estynedig bob tair blynedd ar gost o £50 i'r deiliaid trwydded. Awgrymodd y Safonau y dylid cynnal y gwiriadau hyn bob chwe mis ac mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy i'r deiliad trwydded lofnodi i Wasanaeth Diweddaru DBS.

Fe wnaeth hyn alluogi gweithredu rhaglen dramor sy'n galluogi'r Cyngor i wirio cofnodion heb fod angen i'r deiliad trwydded wneud cais newydd. Mae'r costau i'r deiliad trwydded am y system newydd yn £13 y flwyddyn. Byddai hyn maes o law yn arwain at arbediad bach i'r deiliad trwydded a'r budd i'r Cyngor fyddai y gellid gwirio cofnodion ar unwaith.

Cyfeiriodd y Rheolwr Tîm – Safonau Masnachu a Thrwyddedu y Pwyllgor at Opsiwn 1 sef yr opsiwn a ffafrir a dywedodd y cyflwynir adroddiadau pellach i'r Pwyllgor os a phryd y cynigir newidiadau pellach drwy'r gweithgor neu newidiadau polisi arfaethedig. Ychwanegwyd y cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol gyda chymdeithas y fasnach tacsis ym Mlaenau Gwent ac na ddynodwyd unrhyw faterion o bryder sylweddol, felly teimlwyd nad oedd angen ymgynghori ymhellach ar y pwynt hwn ar y cynnig gerbron y Pwyllgor. Byddai ymgynghori pellach ar newidiadau pellach gyda'r fasnach fel sydd angen.

Ar y pwynt hwn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau.

Teimlai Aelod, unwaith y byddai'r system newydd ar waith, ei fod yn rhoi diogeliad ychwanegol i weithredwyr mwy y byddai gyrrwr, os y'i ceid yn euog, yn cael ei ddynodi a'i adrodd yn unol â hynny.

Croesawodd Aelod arall yr adroddiad a theimlai ei fod yn rhoi sicrwydd ychwanegol oedd yn hollbwysig ar gyfer diogelwch y cyhoedd. Gofynnodd yr Aelod os yr adroddwyd unrhyw ymosodiadau rhywiol ym Mlaenau Gwent fel y rhai ym Manceinion a Glannau Merswy. Cadarnhawyd nad oedd Swyddogion yn gwybod am unrhyw ddigwyddiadau tebyg a adroddwyd ym Mlaenau Gwent.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd yng nghyswllt staff digonol i lanw dros y gwaith ychwanegol, dywedwyd fod y Tîm Trwyddedu yn cynnwys 4 aelod o staff ar hyn o bryd. Er fod rhai staff yn

| | | |
|---|---|---|
| | gweithio llai o oriau, yn ystod y misoedd diweddar roedd pob un o'r pedwar aelod o staff wedi bod yn gweithio 37 awr oherwydd gwaith ychwanegol yn gysylltiedig â'r pandemig.<br><br>Teimlai'r Rheolwr Tîm nad oedd angen adnoddau ychwanegol gan y byddai'r gwaith yn cael ei amsugno yn y lefelau staffio presennol.<br><br>Cododd Aelod bryderon am ddiffyg cod gwisg safonol ar gyfer Blaenau Gwent a chroesawodd y sylwadau yn yr adroddiad. Pe byddai gan yrwyr tacsi god gwisg safonol, teimlai y byddai'n galluogi cwsmeriaid i'w hadnabod yn rhwydd.<br><br>Cytunodd yr Aelod Tîm gyda'r sylwadau a dywedodd ei fod yn fater i gael ei drafod yn y gweithgor. Ychwanegodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu, er nad oes gan yr Awdurdod god gwisg ffurfiol, fod rhai eitemau o ddillad nad oedd yn dderbyniol. Mae rhai swyddi yn nogfen Llywodraeth Cymru y gallai'r Awdurdod ystyried eu hychwanegu o ran cod gwisg.<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a mabwysiadu gofynion DBS Safonau Statudol Tacsis a Cherbydau Hur Preifat (Opsiwn 1), yn benodol yng nghyswllt:<br><br>• Gweithredu gwiriadau 6 misol, gan ddechrau ar unwaith, ar raglen dreigl fel a phryd mae'n amser adnewyddu; a<br><br>• Diwygio polisi'r Awdurdod ar drwyddedau cerbydau hacni a hur preifat yn unol â hynny a chytunodd Aelodau ar ymgynghoriad llawn. | |
| **No. 5** | **<u>CYNLLUN PEILOT TACSI GWYRDD PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Trwyddedu.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrwyddedu fod yr adroddiad yn amlinellu Cynllun Peilot Tacsi Gwyrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gaiff ei gyflwyno ym Mlaenau Gwent a gofynnodd am gymeradwyaeth i ganiatáu eithriad i bolisi'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | Awdurdod ar drwyddedau cerbydau hacni a hur preifat yng nghyswllt cynllun lliwiau'r cerbydau hynny.<br><br>Roedd y cais hwn yn gyson ac yn ddynodadwy ar draws y 12 awdurdod arall sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu gwaith i gael ei wneud gan y tîm Trwyddedu o fewn yr adnoddau sydd ar gael, fodd bynnag nid oes unrhyw oblygiadau ariannol gan y byddai'r gost yn cael ei gyllido'n llwyr gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.<br><br>Siaradodd Arweinydd y Tîm am yr adroddiad ymhellach a rhoddodd fanylion y cynllun peilot. Nododd Arweinydd y Tîm fod Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o ddatgarboneiddio ar gyfer fflyd tacsis pob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2028 a gobeithid y byddai cynlluniau peilot Tacsis Gwyrdd yn cynorthwyo wrth gyflawni'r targed hwnnw. Byddai'r cynllun peilot yn rhedeg am 2-3 mlynedd a byddai mannau gwefru cysylltiedig i'w defnyddio gan dacsis/cerbydau hur preifat yn cael eu gosod yn ymyl neu yn y prif safleoedd tacsi ym Mlaenau Gwent. Mae'r wybodaeth fwy manwl yn cael ei chwblhau ac, unwaith y bydd ar gael, cyflwynir adroddiadau i sicrhau fod Aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf.<br><br>Dywedodd Arweinydd y Tîm nad Awdurdod Trwyddedu Blaenau Gwent sy'n arwain ar y prosiect, cymryd rhan yn y cynllun peilot mae'r Awdurdod. Byddai cwmni rheoli o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn rheoli'r cynllun.<br><br>Cafodd yr Awdurdod ddau gerbyd Nissan Dynamo hygyrch i gadeiriau olwyn a byddai'r rhain ar gael yn rhad ac am ddim i yrwyr yn ystod y cyfnod prawf. Gobeithir y byddai'r cynllun yn un 'rhoi cynnig cyn prynu', gan alluogi gyrwyr tacsi trwyddedig i roi cynnig ar y cerbyd yn rhad ac am ddim am 30 diwrnod. Mae'r prawf yn debyg o hefyd gynnwys gwefru trydan am ddim, yswiriant, trwyddedu cerbyd, gwasanaeth trwsio os yw'r cerbyd yn torri ac yn y blaen. Pe byddai gyrwyr yn hoffi'r cerbydau, teimlid y byddai'n creu cymhelliant i yrwyr fel dewis posibl o gerbyd ar gyfer y dyfodol.<br><br>Dywedwyd y cynhaliwyd rhai ymgynghoriadau anffurfiol gyda Chymdeithas Tacsis Blaenau Gwent ar 28 Ebrill 2021 ac y cynhaliwyd trafodaeth gadarnhaol ar y newidiadau arfaethedig ac | |

| | | |
|---|---|---|
| | na chodwyd unrhyw bryderon sylweddol.<br><br>Cyfeiriodd yr Arweinydd Tîm – Safonau Masnachu a Thrwyddedau yr Aelodau ymhellach at yr opsiynau a nododd yr opsiwn a ffafrir. Ychwanegodd y byddai'r cerbydau a ddefnyddid ar draws yr awdurdodau sy'n cymryd rhan yn y peilot yn cael eu hadnabod ar unwaith fel cerbydau yn y cynllun peilot gwyrdd ac y byddent yn cael eu heithrio rhag yr arwyddion arferol.<br><br>Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau ar y pwynt hwn.<br><br>Gofynnodd Aelod os byddai grantiau ar gael ar gyfer gyrwyr tacsi, gan fod cerbydau trydan yn ddrud. Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu y byddai grantiau ar gael, fodd bynnag mae'r cerbyd a roddwyd yn un o'r goreuon ac mae rhai rhatach ar gael heb fynediad cadair olwyn. Y grantiau gan Lywodraeth Cymru fyddai £2,000 a roedd yr arbedion a ddynodwyd tua £5,000 y flwyddyn o gymharu gyda cherbydau disel neu betrol presennol. Roedd trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt am opsiynau prydlesu a grantiau i yrwyr gael mannau gwefru yn eu cartrefi. Dim ond ar gyfer tacsis fyddai'r mannau gwefru yn y safleoedd tacsi.<br><br>Cododd Aelod bryderon am gwmnïau tacsi gyda stoc fflyd gyda gyrwyr yn defnyddio'r un cerbydau a dywedwyd mai dim ond cwpl o gerbydau fflyd oedd gan Flaenau Gwent. Mae'r materion hyn yn fwyaf tebygol o gael eu profi yng nghanol dinasoedd a byddid yn codi'r mater yn y Gweithgor gan fod y cynllun peilot ar draws 12 awdurdod. Mae unrhyw faterion o'r fath sy'n codi fel canlyniad i'r cynllun treialu yn rhoi adborth gwerthfawr wrth ganfod sut y byddid yn datblygu'r cynllun yn y dyfodol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r eithriad i bolisi'r Awdurdod ynghylch trwyddedau cerbydau hacni a hur preifat ar gyfer pob cerbyd a drwyddedwyd i'w defnyddio yn y cynllun peilot Tacsi Gwyrdd, yn cynnwys mabwysiadu'r cynllun lliwiau i'w ddefnyddio, fel y dangosir yn Atodiad 1 (Opsiwn 1). | |
| **No. 6** | <u>**AMSER CYFARFODYDD Y DYFODOL**</u><br><br>PENDERFYNWYD cynnal cyfarfodydd y dyfodol am 2.00 p.m. | |